Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:20 – 12:40 | 14/07/2026 | MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	IGDC
Yn bresennol			
Stephen Chaney	StC	Pennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol PCGC
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Anna Evans	AE	Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Chris Moreton	CM	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro	IGDC
Samantha Morgan	SM	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Julie Robinson	JR	Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Ymddiheuriadau			

Acronymau			
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	NFI	Menter Twyll Genedlaethol
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
CRU	Uned Seibergadernid		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd preifat. Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
2.1	**Cofnodion Preifat heb eu cadarnhau o'r cyfarfod blaenorol ar 07 Ebrill 2026** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o drafodaeth.	Cymerad wywyd	Dim i'w Nodi
2.2	**Cofnod Gweithredu** Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gamau	Nodwyd	Dim i'w nodi

	gweithredu wedi'u nodi o'r cyfarfod diwethaf. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** statws y Cofnod Gweithredu.		
RHAN 3	ARCHWILIO A RISG LLYWODRAETHU		
3.1	**Adolygiad Archwilio Mewnol** **Adolygiad Archwilio Prosesau Recriwtio** Rhoddodd Stephen Chaney, Pennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol (SC) y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Archwilio Prosesau Recriwtio: - Nodwyd cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol, gyda gwaith pellach yn ofynnol i gwblhau camau gweithredu sy'n weddill. Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd cynnal rheolaethau effeithiol, trefniadau cydymffurfio a gwelliant parhaus. Derbyniwyd sicrwydd gan y rheolwyr ynghylch gweithgaredd parhaus i fynd i'r afael â'r camau gweithredu sy'n weddill. **CAM GWEITHREDU: 20260714-A01** – Defnyddio'r oedi recriwtio presennol i barhau i ymgorffori gwelliannau a mynd i'r afael â'r camau archwilio sy'n weddill, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant recriwtio sydd heb ei gwblhau. **CAM GWEITHREDU: 20260714-A02** – Ystyried sut y gellir dangos manteision datblygiadol ac ansoddol hyfforddiant a rheolaethau recriwtio ochr yn ochr â mesurau cydymffurfio ag archwiliadau. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** adolygiad archwilio er **SICRWYDD**.	Nodwyd	**CAM GWEITHREDU: A01** **CAM GWEITHREDU: A02**
RHAN 4	MATERION I GLOI		
4.1	**Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd** Byddai'r eitemau oedd i'w hamlygu i'r Bwrdd yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
4.2	**Unrhyw Faterion Brys eraill** Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	**Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:** • 06 Hydref 2026.	Nodwyd	Dim i'w nodi